



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro and Governor Support Unit Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Mae'n hanner tymor wrth i mi ysgrifennu. Rwyf newydd ddychwelyd o wyliau byr yn Sir Benfro gyda'r teulu: tywydd heulog, ond nid rhy boeth, tŷ mawr gyda golygfeydd hyfryd o'r môr, gemau bwrdd a chardiau gyda phlant ac wyrion, chwarae ar y traeth a chastell, mwynhau peint da o gwrw wrth edrych ar y môr o deras tafarn.

Pam ydw i'n dweud hyn wrthyh chi? Oherwydd bod fy ngwraig yn dweud wrthyf fod angen y seibiant hwn arnaf er fy lles cyffredinol. Mae'n dweud fy mod wedi bod yn gweithio'n rhy galed ac yn rhy hir. Mae hi'n gweithio mewn ysgol ac roedd angen seibiant arni hi am yr un rhesymau.

Mae gwyliau ysgol yn hanfodol er lles ysgolion ac i sicrhau eu bod yn rhedeg yn dda. Mae addysg yng Nghymru yn blaenoriaethu lles. Nid gair poblogaidd cyfleus yn unig yw lles; mae angen i ddisgyblion gael seibiant a theimlo'n dda amdanynt eu hunain os ydynt am allu dysgu pethau a gwneud y gorau o'u hamser yn yr ysgol; ac mae'r un peth yn

wir am Benaethiaid a staff ysgol, heb sôn am Lywodraethwyr.

Ond ni ellir gadael hyn i siawns. Rhaid gweithio ar les. Sut mae eich ysgol yn delio â'r her hon? A yw eich disgyblion a'ch staff yn hapus? A yw'r ysgol wedi gofyn iddynt? Ydych chi wedi gweld canlyniadau'r arolygon diweddaraf o les staff a myfyrwyr? A ydych chi wedi gweld y cynllun gweithredu'n cael ei roi ar waith i wneud eich ysgol yn lle gwell i weithio a dysgu ynddo? A oes cynllun o'r fath yn bodoli?

Nid oes angen i bob un ohonoch ruthro i drefnu gwyliau yng Ngorllewin Cymru, er fy mod yn ei argymhell yn fawr, ond mae angen i Lywodraethwyr gadw llygad ar bethau eraill yn hytrach na'r data cynnydd academiaidd yn unig: y pethau sy'n gwneud bywyd yn werth ei fyw i'r bobl ifanc yn eich gofal.

Dr Martin Price
Cadeirydd Cymdeithas
Llywodraethwyr Ysgolion y Fro
ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr,
Ysgol Uwchradd Gatholig
Sant Richard Gwyn

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare

Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107 Fax: 01446 701820
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA
a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Dysgu a Sgiliau
Swyddfeydd Dinesig, Heol Holton,
Y Barri CF63 4RU

Rhifyn 52 Tymor yr Haf 2022

Pwyntiau arbennig o ddiddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Mabwysiadu'r Cwricwlwm: Cyngor ar gyfer Cyrff Llywodraethu Ysgolion

Yn barod ar gyfer gweithredu'r cwricwlwm, ar gyfer pob ysgol gynradd ym mis Medi 2022 ac ysgolion uwchradd yn unol â'u cynlluniau ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm, mae'n orfodol i'r pennaeth a'r corff llywodraethu fabwysiadu eu cwricwlwm a'u trefniadau asesu ar y cyd, a chyhoeddi crynodeb ohonyn nhw.

Mabwysiadu'r cwricwlwm

Sylwch nad yw hyn yn berthnasol i'r ysgolion uwchradd hynny yn y Fro sydd wedi gohirio'r mabwysiadu hwn tan fis Medi 2023.

Mae angen i fabwysiadu'r cwricwlwm ar gyfer mis Medi fod yn eitem ar agenda cyfarfod llawn y corff llywodraethu yn nhymor yr haf gyda'r cofnodion yn dangos ei fod wei'i fabwysiadu'n ffurfiol. Bydd lefel y manylder y bydd ysgolion yn mynd iddo gyda'u corff llywodraethu llawn yn amrywio. Bydd llawer wedi bod yn rhannu'r manylion a'r datblygiadau trwy gyfarfodydd is-bwyllgorau (cwricwlwm/dysgu ac addysgu/cynnydd ac ati) felly gall y corff llywodraethu llawn dderbyn argymhelliad gan is-bwyllgor i fabwysiadu ar sail y wybodaeth a rannwyd. Gall eraill wneud hyn yn gyfan gwbl drwy'r corff llywodraethu llawn

Os bydd ysgolion yn dilyn y canllawiau yn y dolenni isod, byddant yn bodloni'r gofynion cyfreithiol <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#maintained-schools-and-maintained-nursery-schools>

Crynodebau Ysgol Cyhoeddedig

Mae Llywodraeth Cymru yn argymhell bod crynodebau cyhoeddedig yn cynnwys:

- gwybodaeth am y modd yr ymgysylltwyd ag ymarferwyr, dysgwyr, rhieni, gofalcwyr a'r gymuned ehangach i lywio datblygiad y cwricwlwm;
- sut mae'r cwricwlwm yn bodloni'r elfennau gofynnol a nodir yn y fframwaith cenedlaethol hwn, gan ddechrau o'r pedwar diben;
- gwybodaeth am sut mae'r ysgol yn mynd ati i drafod cynnydd dysgu a'i threfniadau ar gyfer asesu; a
- sut bydd y cwricwlwm yn cael ei adolygu'n barhaus, gan gynnwys y broses ar gyfer adborth ac adolygu parhaus'.

Cymerwyd o <https://hwb.gov.wales/cwricwlwm-i-gymru/crynodeb-o-r-ddeddfwriaeth/#maintained-schools-and-maintained-nursery-schools> a hefyd o fewn pecyn Cwestiynau Cyffredin Cwricwlwm i Gymru Consortiwm Canolbarth y De Mawrth 2022 <https://www.cscjes-cronfa.co.uk/repository/discovery/resource/1240b515-2465-4b65-971d-9494942c7a80/cy?sort=recent&strict=0>

Mae'r crynodeb o'r canllawiau i'w gweld yma yn nhaflen ddiweddaraf gan Llywodraeth Cymru: https://hwb-team-storage.s3.eu-west1.amazonaws.com/Documents/Web+team/File+store/220429+Mandatory+guide_CYM.pdf

Awgrymir bod angen i ysgolion gynnig brawddeg neu ddwy ar bob un o'r pwyntiau yn y canllawiau uchod i gwmpasu eu hunain yn gyfreithiol o ran gofynion y crynodebau.

Bydd llawer o grynodedau yn gyffredinol iawn ac ar lefel uchel yn y lle cyntaf gan nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion wedi cwblhau eu cwricwlwm yn derfynol, bydd yn datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn. O ganlyniad, bydd y crynodebau cyhoeddedig yn esblygu ac yn cael eu diweddarau yn unol â hynny.

Mae Consortiwm Canolbarth y De wedi gofyn i Lywodraeth Cymru rannu enghraifft o'r hyn y maent yn ei ystyried yn lefel briodol o fanylder, ond maen nhw'n dweud cyn belled â bod ysgol yn ymdrin â'r pwyntiau uchod, mater iddyn nhw yw pa mor fanwl yw hi gan taw cwricwlwm yr ysgol yw hi yn seiliedig ar ganllawiau cenedlaethol.

Gellir cyhoeddi'r datganiad cryno a'i rannu cyn gynted ag y bydd y corff llywodraethu wedi mabwysiadu'r cwricwlwm.

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch, cysylltwch â phartner gwella eich ysgol.



e-lyfrgell ac e-adnoddau newydd

Mae Llyfrgell y Fro ar-lein ac e-adnoddau ar gael 24/7 i holl aelodau'r llyfrgell a gallai fod yn ddefnyddiol i lywodraethwyr, athrawon a disgyblion. Mae Pressreader yn ychwanegiad newydd cyffrous. Mae'n caniatáu i chi gael mynediad at bapurau newydd a chylchgronau ar eich cyfrifiadur, gliniadur, llechen neu ffôn clyfar. Mae'n cynnwys papurau newydd cenedlaethol fel y Guardian, y Telegraph, yr Express a'r Mirror. Mae ganddo rai Cymraeg fel y Western Mail a'r Cymro. Mae hefyd yn cynnwys ystod eang o rai rhyngwladol fel y Wall Street Journal, y South China Morning Post, Le Figaro ac El Pais. Mae ap Pressreader i'w ddefnyddio ar gyfrifiaduron llechen a ffonau clyfar a gallwch hefyd lawrlwytho papurau newydd a chylchgronau i'w darllen pan nad oes gennych fynediad i'r rhyngwrdd. I gael gwybod mwy am Pressreader a'r adnoddau eraill sydd ar gael drwy ein llyfrgell e-fenthyg ewch i dudalennau gwe Llyfrgelloedd y Fro:

Llyfrgell e-Fenthyg (bromorgannwg.gov.uk)

Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio yn y Fro ymuno â'n llyfrgelloedd. Gallwch ymuno â'r llyfrgell ar unwaith drwy ein catalog ar-lein:

Catalog Ar-lein y Llyfrgell (bromorgannwg.gov.uk)

Byddwch yn cael rhif a phin a fydd yn eich galluogi i gael mynediad i'n e-adnoddau ar unwaith. I fenthyg llyfrau a chael mynediad i gyfrifiaduron yn ein llyfrgelloedd, yna galwch heibio eich llyfrgell agosaf gyda rhyw fath o gerdyn adnabod swyddogol yn arddangos eich enw a'ch cyfeiriad a byddwn yn eich uwchraddio i gerdyn llyfrgell parhaol.

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2020-22

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

Rhif	Teitl	Blaenly thyren	Cyfenw	Ysgol
1	Mr	R	Bailey	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Llanbedr y Fro
2	Dr	C	Brown	Llantwit Major Comprehensive
3	Mr	N	Craggs	Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru Gwenfô
4	Mrs	M	Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr	A	Hennessey	Ysgol Gynradd Oak Field ac Ysgol Sant Baruc
6	Mrs	S	Hodges	Ysgol Sant Baruc
7	Mrs	S	Jenkins-Welch	Ysgol Gynradd C/W St Andrews Cynhwysfawr St Cyres
8	Mrs	J	Lynch-Wilson	Ysgol Gynradd St Athan
9	Mrs	A	Malkin	Ysgol Gynradd Gladstone
10	Dr	M	Price	Ysgol Uwchradd Gatholig Richard Gwyn Sant
11	Mr	D	Treharne	Ysgol Gynradd Llansannwyr yr Eglwys yng Nghymru
12	Mrs	T	Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-Faen
13	Cllr Mr	M	Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria
14	Vacancy			
15	Vacancy			

PGR = Cynrychiolwyr Rhieni Llywodraethwyr

Parent Governor Representative Prim - Lucy Barrowclough - Llandough Primary School

Parent Governor Representative Sec - Cathy Williams - Ysgol Gymraeg Bro Morgannwg



Gwasanaeth Recriwtio Llywodraethwyr Am Ddim

Mae Governors for Schools yn elusen sy'n nodi, yn lleoli ac yn cefnogi gwirfoddolwyr medrus yn llywodraethwyr ar gyrff llywodraethu ysgolion.

Ers lansio ein gwasanaeth yng Nghymru ym mis Tachwedd 2020 rydym wedi helpu dros 90 o wirfoddolwyr medrus ac ymroddedig i gael eu penodi'n llywodraethwyr.

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o bartneriaid, gan gynnwys prifysgolion, safleoedd gwirfoddoli a busnesau lleol i ddod o hyd i wirfoddolwyr sy'n chwilio am gyfleoedd i ddefnyddio eu sgiliau i gefnogi addysg yn y gymuned leol..

Ar gyfer pwy mae'r gwasanaeth?

Rydym yn cefnogi pob math o ysgolion a ariennir gan y wladwriaeth, colegau addysg uwch, unedau cyfeirio disgyblion (UCDau) a meithrinfeydd a ariennir gan y wladwriaeth i ddod o hyd i lywodraethwyr yn rhad ac am ddim.

Os oes gennych swydd wag ar eich corff llywodraethu, gallwch gofrestru eich swydd wag gyda ni am ddim. Byddwn yn eich cysylltu â gwirfoddolwyr lleol addas sydd am ddod yn llywodraethwyr.

Sut mae'r gwasanaeth yn gweithio?

1. Cofrestrwch eich swyddi gwag i lywodraethwyr ar-lein. Yma gallwch nodi'r sgiliau neu'r arbenigeddau dymunol rydych chi'n chwilio amdanynt mewn gwirfoddolwyr.
2. Bydd y rheolwr ardal leol yn dod o hyd i wirfoddolwyr yn ardal leol eich ysgol sy'n bodloni eich gofynion orau.
3. Os oes gennych chi a'r gwirfoddolwr ddiddordeb mewn symud ymlaen, byddwn yn eich cyflwyno i'ch gilydd dros e-bost. Byddwn yn rhoi amlinelliad i chi o sgiliau'r gwirfoddolwr, yn ogystal â gwybodaeth am pam ei fod yn dymuno bod yn llywodraethwr.
4. Yna gallwch drefnu cyfarfod gyda'r gwirfoddolwr yn yr ysgol neu ar-lein i siarad mwy am y rôl.
5. Os yw'r gwirfoddolwr yn addas i'ch corff llywodraethu, byddwch yn dilyn eich proses benodi arferol.

Amrywiaeth ar gyrff llywodraethu

Mae corff llywodraethu amrywiol yn gorff llywodraethu cryfach, gan adlewyrchu cymunedau ysgolion a'r wlad ehangach. Darllenwch fwy am sut rydym yn gweithio i wella amrywiaeth ar gyrff llywodraethu.

Cysylltwch â loren.nadin@governorsforschools.org.uk gydag unrhyw gwestiynau neu i gael mwy o wybodaeth.

Awgrymiadau ar gyfer dewis eich dosbarth Cymraeg – Cyrsiau Blasu yn dechrau nawr



Entry



Foundation



Intermediate



Higher



Proficient



Os nad ydych erioed wedi gwneud unrhyw Gymraeg o'r blaen gallwch ddechrau dosbarth **MYNEDIAD** i ddechreuwr, ond dywed rhai dysgwyr bod y cwrs **Blasu** o flaen llaw wedi eu helpu i feithrin dealltwriaeth sylfaenol. Maent AM DDIM ac yn para am 3 wythnos. E-bostiwch ni nawr i weld a allwch archebu lle ar gwrs blasu.

Mae'r rhan fwyaf o bobl a aeth i'r ysgol yng Nghymru wedi gwneud rhywfaint o Gymraeg o'r blaen ac mae'r lefel gyntaf **MYNEDIAD** yn ffordd wych o lenwi'r bylchau drwy ddechrau yn y dechrau. Mae ein tiwtoriaid profiadol wedi'u hyfforddi i helpu pobl o wahanol alluoedd i gydweithio a dysgu fel tîm. Rydyn ni'n gwybod bod rhai pobl yn cofio ymadroddion sylfaenol ond yn methu cynnal sgwrs.

I'r rhai a wnaeth TGAU gallwch gysylltu i gael gwiriad am ddim i weld beth yw eich lefel. Mae llawer yn canfod fod ymuno hanner ffordd drwy'r cwrs **MYNEDIAD** yn gweithio'n dda gan eu bod yn gallu edrych dros yr unedau cynnar a dal i fyny'n hawdd. Os wnaethoch chi'r cwrs llawn a bod eich athrawon wedi'ch cael i siarad yr opsiwn nesaf fyddai **SYLFAEN**.

Rydym yn mwynhau cefnogi pobl sy'n dychwelyd i'r Gymraeg. Rydym wedi helpu llawer a oedd yn siarad Cymraeg pan oeddent yn iau a'r rhai a aeth i addysg cyfrwng Cymraeg. Os yr ydych chi'n un o'r rheiny, efallai eich bod yn deall llawer ond bod angen dosbarth arnoch i'ch helpu i siarad yn fwy hyderus. Os dymunwch, rhowch gynnig ar y lefel **GANOLRADD**, bydd croeso mawr i chi. Weithiau ar ôl ychydig fisoedd mae pobl yn symud i fyny i'r lefel **UWCH**. I siaradwyr rhugl sydd eisiau magu hyder ac sydd efallai'n deall y ramadeg ychydig yn fwy rhowch gynnig ar ddosbarth **HYFEDREDD**.

Mae'r cyrsiau'n hyblyg fel y gall dysgwyr newid dosbarthiadau gan gynnwys lefelau. Mae gennym ddosbarthiadau mewn adeiladau o amgylch y Fro ac ar-lein gan ddefnyddio Zoom. Rydym hefyd yn cynnig amseroedd gwahanol o fore tan nos. Os ydych am ddysgu'n gyflymach gallwch hyd yn oed fynychu dosbarth fwy nag unwaith yr wythnos.

Oes gennych chi ddiddordeb? E-bostiwch learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk i gael rhagor o wybodaeth am ddysgu ac i weld a yw'ch cyflogwr yn cynnig cyllid.

Oeddech chi'n gwybod y gall staff Cyngor y Fro a holl staff ysgolion y Fro wneud cais am le wedi'i ariannu? Maen nhw'n cofrestru, yn llenwi ffurflen fer ac rydym ni'n gwneud y gweddill. Cadwch lygad am y **Cyrsiau Blasu** rydym yn eu cynnig yn y gwanwyn ar

<https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/darparwyr-cyrsiau/cyngor-bro-morgannwg/> a rhowch gynnig arni. Mae'r tîm yn edrych ymlaen at gwrdd â chi.

<https://dysgucymraeg.cymru/amdanom-ni/darparwyr-cyrsiau/cyngor-bro-morgannwg/>



Cefnogi'r fenter Urddas Mislif!

Rydym wedi bod yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o gyflawni menter Urddas Mislif Llywodraeth Cymru, gan sicrhau y gall pob dysgwr yn y sir gael cynnyrch mislif am ddim.

Wrth ei gwraidd, mae'r fenter yn ceisio herio'r stigma a'r tabŵ sy'n ymwneud â mislif. Drwy annog mwy o sgysiau, bydd disgyblion yn deall mislif yn well yn ogystal â beth sy'n normal a ble i gael help.

Gall disgyblion ofyn am gynnyrch mislif am ddim, sy'n cael eu rhoi iddynt mewn ffordd ymarferol ac urddasol. Er bod y cynllun yn agored i bawb, canolbwyntiwyd yn benodol ar ei hyrwyddo i aelwydydd incwm is a myfyrwyr sy'n agored i niwed.

Yn ogystal â rhoi'r cynhyrchion, mae ein swyddogion wedi rhoi cymorth parhaus i ysgolion i godi ymwybyddiaeth ac i'w helpu i ddeall eu rôl wrth gefnogi disgyblion. Cynhaliodd y swyddogion archwiliad hefyd i fesur mynediad cyfredol at y cynhyrchion a lle y gellid gwella'r gwasanaeth.

Rydym wedi bod yn gweithio'n agos gyda Rethink Periods i gynnig hyfforddiant i staff addysgu ynghylch lleihau plastig mewn cynnyrch a herio tabŵs ynghylch mislif.

Mae Llywodraeth Cymru yn gofyn bod o leiaf 50% o'r arian yn cael ei wario ar gynnyrch ecogyfeillgar, ac felly bu pwyslais ar hyrwyddo cynhyrchion amlbro lle bo hynny'n bosibl. Mae ein swyddogion bellach yn datblygu partneriaethau ym mhob rhan o'r awdurdod i gynnig cynnyrch i bob defnyddiwr gwasanaeth, er enghraifft gyda'r gwasanaeth llyfrgell, y gwasanaeth ieuencid a thai - gan gynnwys hosteli, ffoaduriaid a thai cymorth.

Mae hyn hefyd wedi'i ymestyn i sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys banciau bwyd a chanolfannau teulu. Gall disgyblion gael cynnyrch mislif am ddim drwy visiting the Council's website neu e-bostio perioddignity@valeofglamorgan.gov.uk

Bydd angen iddynt roi eu henw, eu hysgol, eu grŵp blwyddyn a'u cyfeiriad er mwyn sicrhau y gallwn ymateb cyn gynted â phosibl.

I gael mwy o wybodaeth:

Mark Davies

Rheolwr Atal a Phartneriaeth MDDavies@valeofglamorgan.gov.uk

Lisa Lewis

Rheolwr Gweithredol Strategaeth ac Adnoddau LLewis@valeofglamorgan.gov.uk